GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Disgrifiad Rôl Gwirfoddolwr Mentor caffi Te a Cofi

**CYFRIFOL:** **Gweithwyr prosiect Te a Cofi**
**ADRAN:** **Caffi Te a Cofi**
**LLEOLIAD:** **Caernarfon**

**Pwrpas y Rôl**: I wirfoddoli yng nghaffi Te a Cofi i gefnogi a mentora gwirfoddolwyr bregus a'r rhai sydd hefo anableddau.

**Prif dyletswyddau:**

- Dyletswyddau caffi cyffredinol
- Cefnogi unigolion bregus yn eu tasgau.
- Y gallu i weld gwaith a rhoi cyfarwyddiadau.
- I gynorthwyo'r gwirfoddolwyr i gwblhau llyfrau gwaith a hyfforddiant.
- I fod yn amyneddgar a chyfeillgar gyda gwirfoddolwyr eraill
- I ddilyn gweithdrefnau a pholisïau'r caffi a'r cwmni

**Manteision o wirfoddoli**

- I ddysgu a datblygu sgiliau drwy brofiad ymarferol
- Datblygiad a/neu hyfforddiant personol a phroffesiynol
- Y gallu i archwilio gwahanol fathau o gyfleoedd gwaith yn wirfoddol
- Cyfle i fynd allan, cael hwyl a chwrdd â phobl newydd.
- Profi heriau newydd
- Cefnogi eich cymuned leol - rhoi rhywbeth yn ôl, boddhad personol gan wybod eich bod wedi helpu eraill
- Cryfhau eich CV.

Tynnir eich sylw at y ffaith ei bod hi'n anodd iawn, mewn rhai achosion, i ddiffinio'n fanwl beth yw'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol. Mae'n bosib y byddant yn amrywio o bryd i'w gilydd ond heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau

**MANYLION PERSON - Gwirfoddolwr**

| **Hanfodol** |
|---|
| Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol yn y Gymraeg a Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig |
| Y gallu i ddelio gyda gwybodaeth sensitif a chyfrinachol |
| Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm |
| Yn hyblyg i weithio yn unol â gofynion y dyletswyddau sydd ynglŷn â'r rôl |
| Y gallu i mentora a helpu pobl ifanc gyda cwblhau hyfforddiant a achrediadau. |
| Yn amyneddgar a chyfeillgar. |

| **Dymunol** |
|---|
| Profiad o weithio gyda' helpu pobl ifanc |
| Profiad o godi arian i elusen |
| Addysg a phrofiad perthnasol i'r rol |